# CYMUNEDAU YM MRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.
Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

## TROSOLWG

Mae dysgwyr yn archwilio'r term 'cymuned' a beth mae'n ei olygu iddyn nhw. Maent yn dysgu am efaciwîs o'r Ail Ryfel Byd a'r rôl a chwaraewyd gan gymunedau Tirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wrth eu cartrefu. Mae eu syniadau'n cael eu ehangu i gynnwys ceiswyr lloches heddiw ac maen nhw'n ystyried y rhagfarnau sydd efallai gan rai pobl. Mae dysgwyr yn meddwl am fwlio ar-lein ac yn datblygu poster i hyrwyddo caredigrwydd. Maent yn archwilio eu cymuned leol ymhellach fel y gallant greu llyfrynneu bamffled digidol ar gyfer eu cymuned, ar ôl datblygu meini prawf llwyddiant ar gyfer llyfryn neu bamffled da yn gyntaf.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Mynediad at: Find out what every symbol means on an OS Explorer map - OS GetOutside (Saesneg yn unig).
Dulliau o gymryd ffotograffau (e.e. ffôn clyfar, tabled, camera).

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# BETH YW CYMUNED?

Eglurwch wrth y dysgwyr mai ffocws y dasg hon yw archwilio'r term 'cymuned' a beth mae'n ei olygu iddyn nhw.

## Sgrîn 3

Ar y sgrîn hon, cyflwynir syniadau dysgwyr eraill ynglŷn â beth yw cymuned. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y syniadau a phenderfynu sut y bydden nhw'n ateb y cwestiwn a pham ei ateb fel yna. Hefyd, gofynnir iddynt benderfynu syniad pwy y maent yn anghytuno fwyaf ag ef a syniad pwy y maent yn anghytuno leiaf ag ef, gan roi rhesymau am eu penderfyniadau.

## Sgrîn 4

Dyma ddau ddiffiniad o gymuned. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa ddiffiniad yw'r agosaf at sut y byddech chi'n diffinio 'cymuned'? Pam?
- Beth fyddech chi'n ei ychwanegu at bob un o'r diffiniadau uchod? Pam?

## Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa gymunedau ydych chi'n rhan ohonyn nhw, trwy'ch teulu?
- Pa gymunedau sydd yn yr ardal yr ydych yn byw ynddi? Sut ydych chi'n gwybod?
- I ba gymunedau ysgol ydych chi'n perthyn? Pam?
- Pa gymunedau ydych chi'n rhan ohonyn nhw oherwydd eich ffrindiau?
- A oes unrhyw gymunedau yr ydych yn rhan ohonynt, ond yn dymuno nad oeddech yn rhan o'r cymunedau hyn? Pam?
- Pa gymunedau hoffech chi fod yn rhan ohonyn nhw? Pam?
- Sut mae unrhyw un o'r cymunedau hyn yn cysylltu? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Yna, gofynnwch iddynt lunio map cysyniad, fel unigolion, i ddangos eu syniadau. Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am fapiau cysyniad, ewch i: How to Make a Concept Map: Beginner's Guide (& Templates) (Saesneg yn unig) a Classroom Strategies - Concept Maps (Saesneg yn unig).

Mae map cysyniad yn ddiagram sy'n dangos cydberthnasau rhwng cysyniadau. Yn syml, mae map meddwl yn cysylltu syniadau, tra bod map cysyniad yn cynnwys disgrifiadau ar y llinellau cyswllt i ddangos y gydberthynas.

### Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am un gymuned y maen nhw'n perthyn iddi a thrafod y cwestiynau canlynol. Gallwch annog trafodaeth am gymunedau lle ceir cystadleuaeth (City ac United, ac ati) a sut mae gwahaniaethau'n cael eu rheoli.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw manteision bod yn rhan o'r gymuned hon? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut mae bod yn rhan o'r gymuned hon yn gwneud i chi deimlo? Pam?
- Beth yw'r anfanteision o fod yn rhan o'r gymuned hon? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut mae eich cymuned yn cyd-dynnu â chymunedau eraill? Beth yw'r problemau? Pam fod problemau? Sut mae'r rhain yn cael eu rheoli?

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio'r tabl Manteision ac Anfanteision i ddangos eu syniadau.

TASG 2

## CYSYLLTIADAU GYDA FY NGHYMUNED LEOL

Eglurwch wrth y dysgwyr y dylai'r dasg hon eu helpu i ddeall mwy am geiswyr lloches a'r rhagfarnau sydd efallai yn bodoli.

### Sgrîn 3

Ar y sgrîn hon, rhoddir gwybodaeth hanesyddol am efaciwîs (o [BBC - History - British History in depth: Evacuees in World War Two - the True Story]) (Saesneg yn unig)). Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl y galwyd hyn yn 'Ymgyrch y Pibydd Brith'?
- Sut ydych chi'n meddwl y cafodd y plant eu cludo? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut ydych chi'n meddwl y byddai'r plant hyn yn teimlo am y daith hon? Pam?

## Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr mai cyfres aml-fformat ar S4C oedd Efaciwîs, yn edrych ar brofiad efaciwîs yng Nghymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd a hanes Cymru yn cynnig lloches i bobl a wnaed yn ddigartref gan ryfel.

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen am y gyfres ar y ddolen hon: Efaciwis, wedyn gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut ydych chi'n meddwl y byddech chi'n teimlo pe byddech chi'n cael eich gwahanu oddi wrth eich teulu? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut byddech chi'n teimlo pe byddai'n rhaid i chi fynd i fyw gyda theulu a oedd i gyd yn siarad iaith nad oeddech yn ei deall? Pam fyddech chi'n teimlo fel hyn?
- Beth fyddech chi'n ei wneud ynghylch y rhwystr iaith? Pam?

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr fod llawer o gymunedau yn Nhirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi croesawu plant o ddinasoedd mawr, fel y disgrifir ar y sgrîn.

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i siarad â'u teulu, ffrindiau a chymdogion, er mwyn darganfod a oes ganddyn nhw unrhyw gysylltiadau â Lerpwl, Manceinion neu Birmingham. Hefyd, er mwyn gweld pa gysylltiadau eraill o'r Ail Ryfel Byd y gallant ddod o hyd iddynt, gan chwilio am gysylltiadau ag efaciwîs. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol ymlaen llaw.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl bod plant a oedd wedi'u symud i Gymru wedi cadw mewn cysylltiad â'r teuluoedd y buont yn aros gyda nhw yng Nghymru?
- Pam ydych chi'n meddwl bod pobl wedi ailymweld â'r cymunedau Cymreig roedden nhw'n byw ynddynt yn ystod y rhyfel?
- Pam efallai bod rhai o'r bobl hyn wedi symud yn ôl i'r cymunedau hyn yn ddiweddarach mewn bywyd?
- Sut byddwch chi'n dod o hyd i wybodaeth gan eich teulu, ffrindiau a chymdogion? Pa gwestiynau fyddwch chi'n eu gofyn iddyn nhw? Pam?
- Pam y gallai fod angen i chi drin y pwnc hwn yn sensitif? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut byddwch chi'n cadw cofnod o'r hyn maen nhw'n ei ddweud?

## Sgrîn 7

Gofynnwch i'r dysgwyr wneud cyflwyniad byr i'r dosbarth am yr hyn maen nhw wedi'i ddarganfod am bobl yn eu cymuned sydd â chysylltiadau â'r broses o symud efaciwîs yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Er mwyn eu helpu i drefnu eu meddyliau, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth fyddwch chi'n ei gynnwys yn eich cyflwyniad? Pam?
- Sut byddwch chi'n adrodd straeon pobl? Pam eu hadrodd fel hyn?
- Beth yw'r negeseuon pwysig i'w cyfleu yn y math hwn o gyflwyniad? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut byddwch chi'n sicrhau fod eich cyflwyniad yn cysylltu â'r gynulleidfa?

## Sgrîn 8

Os oedd unrhyw un o deulu, ffrindiau neu gymdogion y dysgwyr, neu rywun maen nhw'n ei adnabod yn efaciwî yn ystod yr Ail Ryfel Byd, gofynnwch i'r dysgwyr wneud ymchwil pellach er mwyn canfod pa gofnodion sydd ar gael. Darperir rhai dolenni ar y sgrîn fel mannau cychwyn.

## Sgrîn 9

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Cyfarthfa (Loggerheads) wedi'i adeiladu fel cyfleuster ar gyfer efaciwîs adeg rhyfel, ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd. Gofynnwch iddynt ddarllen am Colomendy a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa emosiynau ydych chi'n meddwl y byddai'r plant hyn wedi'u teimlo ar adegau gwahanol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pryd ydych chi'n teimlo'r emosiynau hyn yn eich bywyd? Pam?
- Sut ydych chi'n delio â phrofi'r emosiynau hyn?
- Gyda phwy ydych chi'n siarad am yr emosiynau hyn? Pam?

## Sgrîn 10

Eglurwch wrth y dysgwyr, ar ddiwedd y rhyfel, wedi i'r efaciwîs fynd adref, agorwyd Colomendy i ysgolion Lerpwl fel canolfan addysg awyr agored. Gofynnwch iddynt ddarllen y testun ar y sgrîn sy'n son am hyn.

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y map Arolwg Ordnans (OS) o Dirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a darganfod y nodweddion a grybwyllwyd ar y sgrîn. Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut byddwch chi'n dod o hyd i'r nodweddion a grybwyllir ar y map? Pam dod o hyd iddynt fel hyn?
- Beth yw cyfesurynnau'r nodweddion hyn? Sut wnaethoch chi ganfod y rhain?
- Mae Maeshafn yn gymuned fechan ger Cyfarthfa. Pa gymunedau eraill sydd gerllaw?
- Pam ydych chi'n meddwl bod pobl o Lerpwl a Glannau Merswy yn dychwelyd i Gyfarthfa i ymweld, gweithio neu ymddeol?

## Sgrîn 11

Eglurwch wrth y dysgwyr fod pobl yn parhau i gael eu gorfodi o'u cartrefi hyd heddiw, fel y digwyddodd i'r efaciwîs. Gofynnwch iddyn nhw ddarllen y testun a dangos y fideo: BBC News - How Ukrainian refugees fleeing Russia's war are settling in Wales (tua dwy funud a hanner o hyd). Yna, gall y dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam mae pobl Wcráin yn ceisio lloches mewn gwlad arall?
- Sut ydych chi'n meddwl y mae ceiswyr lloches o Wcráin yn teimlo pan fydd yn rhaid iddynt adael eu gwlad?
- Sut ydych chi'n meddwl y mae ceiswyr lloches o Wcráin yn teimlo pan fyddant yn dod i Gymru? Pam?

## Sgrîn 12

Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu fod yn rhaid iddyn nhw adael cartref yn gyflym iawn oherwydd bod rhyfel yn torri allan yn lleol, a dim ond un bag sydd ganddyn nhw. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa bum peth fyddech chi'n eu cymryd gyda chi?
- Pam fyddech chi'n cymryd pob un o'r pethau hyn?
- Pa dri pheth arall yr hoffech eu cymryd hefyd, pe byddai gennych le yn eich bag? Pam hoffech chi gymryd pob un o'r pethau hyn hefyd?

## Sgrîn 13

Eglurwch wrth y dysgwyr fod mewnfudwyr i Gymru a'r DU yn dod â diwylliannau, sgiliau a phrofiadau defnyddiol gwahanol i'w canlyn. Fodd bynnag, mae gan rai pobl syniadau rhagfarnllyd sy'n gwneud iddynt ganolbwyntio mwy ar feddyliau negyddol yn hytrach na'r rhai cadarnhaol.

Dangoswch y fideo a gofynnwch iddyn nhw feddwl am ymateb y teulu - The Catherine Tate Show - Posh family reacts to northern nanny (ychydig dros ddau funud o hyd). Yna, dylai'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa ragfarnau sydd gan y 'teulu crand'?
- Pam ydych chi'n meddwl bod gan y teulu crand y rhagfarnau hyn?

## Sgrîn 14

Eglurwch wrth y dysgwyr fod gan bob un ohonom ragfarnau anymwybodol sydd wedi'u gwreiddio yn ein teimladau, ein hagweddau a'n credoau yn aml. Rydym yn cael y rhagfarnau hyn, er enghraifft, gan ein teulu, ein cylchoedd cymdeithasol, addysg, teledu a ffilm, papurau newydd, cyfryngau cymdeithasol, hysbysebion, grwpiau cyfeillgarwch, ac ati. Efallai y byddwn yn trin pobl yn wahanol oherwydd eu bod yn dod o hil, diwylliant, crefydd a/neu ddosbarth arall, am fod Saesneg neu Gymraeg yn ail iaith iddynt, am eu bod yn ddieiriau, am fod ganddynt anghenion emosiynol a chymdeithasol ychwanegol, am fod ganddynt anabledd neu am nad ydynt yn cydymffurfio â'r hyn a ystyrir yn arferol ar gyfer eu rhyw.

## Sgrîn 15

Eglurwch wrth y dysgwyr fod tri prif fath o ragfarn anymwybodol.

- Rhagfarn affinedd – pan y byddwn yn dangos ffafriaeth tuag at eraill sy'n rhannu rhai rhinweddau neu nodweddion gyda ni, neu bobl rydym yn eu hoffi.
- Rhagfarn cadarnhau – pan y byddwn yn chwilio am wybodaeth neu'n dehongli'r hyn a welwn mewn ffyrdd sy'n cadarnhau ein credoau sy'n bodoli eisoes.
- Rhagfarn priodoli – pan y byddwn yn priodoli achos ymddygiad person i'w gymeriad ac nid i'r sefyllfa.

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

Pe byddi teulu o geiswyr lloches yn symud i fyw yn lleol...

- Pa fathau o ragfarnau anymwybodol allai fod gennych chi? Pam?
- Sut allech chi oresgyn eich rhagfarnau anymwybodol? Pam y gallai'r syniadau hyn weithio?

## Sgrîn 16

Dangoswch y fideo am fwlio ar-lein - Schoolgirl Gets Bullied by Her Friends on Snapchat (ychydig dros dri munud o hyd). Yna, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa fathau o ragfarn anymwybodol a ddangoswyd gan y bwlis?
- Sut allech chi annog y bwlis i ddod i adnabod eu rhagfarnau? Pam fyddai hyn yn gweithio?

## Sgrîn 17

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i wneud poster er mwyn annog pobl i fod yn fwy caredig ag eraill yn yr ysgol.

Er mwyn helpu'r dysgwyr i wneud poster da, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth sy'n gwneud poster da? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa eiriau sy'n bwysig i'w cynnwys? Pam?
- Pa ddelweddau sy'n bwysig i'w cynnwys? Pam?
- Beth yw'r negeseuon allweddol yr hoffech i'r poster eu cyfleu? Pam?
- Sut byddwch chi'n defnyddio lliw yn eich poster? Pam?

Yna, gallant greu eu poster.

TASG 3

# FY NGHYMUNED LEOL

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n archwilio eu cymuned leol ymhellach er mwyn iddyn nhw allu creu llyfryn digidol ar gyfer eu cymuned.

## Sgrîn 3

Ar y sgrîn hon, rhoddir datganiad gan Dirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa bersonoliaeth sydd gan eich cymuned leol? Pam ydych chi'n meddwl hyn?
- Beth yw hanes unigryw eich cymuned? Pam mae hyn yn ei wneud yn unigryw?
- Beth sy'n fywiog a chyffrous am eich cymuned? Pam fod y pethau hyn yn ei gwneud yn fywiog a chyffrous?

## Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw am fynd i mewn i'w cymuned i gymryd ffotograffau sy'n dangos personoliaeth, hanesion a straeon unigryw, a bywiogrwydd y gymuned. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa ffotograffau allech chi eu cymryd er mwyn dangos:
    - personoliaeth
    - hanesion a straeon unigryw
    - bywiogrwydd eich cymuned?
- Ble fyddech chi'n mynd i gymryd y ffotograffau hyn?

## Sgrîn 5

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i gymryd eu ffotograffau.

## Sgrîn 6

Eglurwch wrth y dysgwyr fod helpu pobl i ddeall sut maen nhw'n perthyn i hanes yr ardal ac i ailgysylltu â'u gorffennol, yn rhan bwysig o'r gwaith a wneir gan y tîm yn Nhirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut y daeth y cymunedau hyn i wybod am eu hanes, yn eich barn chi? Gwnewch restr o'ch syniadau.
- Beth ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n ei ddarganfod yn y llyfrynnau hyn? Pam?

## Sgrîn 7

Ar y sgrîn hon, mae dolenni i dri o'r llyfrynnau cymunedol. Gofynnwch i'r dysgwyr gyrchu'r llyfrynnau a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa wybodaeth sydd ynddynt? Pam?
- Beth yw'r pethau mwyaf diddorol yn y llyfrynnau, yn eich barn chi? Pam?
- Beth wnaeth eich synnu am gynnwys y llyfrynnau? Pam?

## Sgrîn 8

Yma, gofynnir i ddysgwyr ddatblygu rhai meini prawf llwyddiant ar gyfer yr hyn sy'n gwneud llyfryn llwyddiannus. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau a ofynnir.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam mae pobl yn darllen llyfrynnau? Beth maen nhw eisiau ei ddarganfod? Pam?
- Beth sy'n denu pobl at lyfryn penodol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- A ddylai llyfryn gynnwys delweddau? Pam?
- Pa wybodaeth ddylai llyfryn ei chynnwys? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth ddylai fod yn brif nod ar gyfer llyfryn? Pam?
- Beth yw'r ffordd orau o gyrraedd y nod hwnnw? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Gan feddwl am y llyfrynnau y maen nhw wedi edrych arnyn nhw, gofynnwch i'r dysgwyr wneud rhestr o'u meini prawf llwyddiant a phenderfynu ar y tri pwysicaf.

## Sgrîn 9

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i greu llyfryn digidol ar gyfer eu cymuned. Mae angen iddynt feddwl beth i'w gynnwys. Mae rhai syniadau ar y sgrîn. Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y syniadau, ac mewn grwpiau gallant benderfynu pa syniadau i'w cynnwys, pa bethau eraill i'w cynnwys, ac ati.

## Sgrîn 10

Fel rhan o'r broses gynllunio, gofynnwch i'r dysgwyr ystyried sut y byddan nhw'n casglu'r wybodaeth berthnasol trwy drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Gyda phwy fyddai'n ddefnyddiol siarad? Pam?
- Ble fyddech chi'n dod o hyd i'r bobl hyn? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa wefannau ar-lein allai fod yn ddefnyddiol cael mynediad iddynt? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ble gellir cadw cofnodion hanesyddol a chrefyddol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ble mae pobl yn mwynhau cerdded yn yr ardal leol? Pam?
- Ble allech chi weld planhigion ac anifeiliaid gwyllt yn lleol? Sut ydych chi'n gwybod?
- Ble mae tystiolaeth yn lleol o ddiwydiant presennol ac o'r gorffennol? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa ffotograffau sydd gennych chi eisoes a fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer dangos personoliaeth, hanesion a straeon unigryw, a bywiogrwydd eich cymuned?

Gofynnwch i'r dysgwyr ddechrau creu map meddwl i ddangos eu syniadau.

## Sgrîn 11

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol ynghylch gweithio ar y cyd.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut byddwch chi'n rhannu'r tasgau? Pam fel hyn?
- Pwy fydd yn gwneud beth? Pam? Pwy sy'n penderfynu?
- Pwy fydd yn penderfynu ar gynllun y llyfryn? Pam?
- Pwy fyddwch chi'n eu cyfweld? Pam?

Yna, gallant ychwanegu syniadau newydd at eu map meddwl.

## Sgrîn 12

Eglurwch wrth y dysgwyr fod eu cwricwlwm ysgol yn cynnwys Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Gofynnwch iddynt gyrchu'r fframwaith: Fframwaith Cymhwysedd Digidol ac edrychwch ar Gamau Cynnydd 3 a 4 ar bob un o'r elfennau. Yna, gallant drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa un o'r rhain sy'n berthnasol i greu eich llyfryn cymunedol? Pam?
- Sut y byddwch yn sicrhau eich bod yn cymryd pob un o'r elfennau hyn i ystyriaeth wrth greu eich llyfryn? Pam fydd y camau hyn yn gweithio?
- Sut byddwch chi'n amddiffyn hawliau pobl sydd wedi'ch helpu chi?
- Sut byddwch chi'n mynd i'r afael â materion hawlfraint? Pam fel hyn?
- Pa elfen yw'r bwysicaf i'w hystyried? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Yna, gallant ychwanegu syniadau newydd at eu map meddwl.

## Sgrîn 13

Ar y sgrîn hon, gofynnir i'r dysgwyr am ystyriaethau eraill wrth greu llyfryn digidol. Gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Efallai y bydd pobl y byddwch yn eu cyfweld yn rhoi gwybodaeth a ffotograffau i chi. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i ddiogelu eu gwybodaeth bersonol, os byddwch yn ei chynnwys yn y llyfryn?
- Sut byddwch chi'n sicrhau nad ydych chi'n copïo gwaith pobl eraill? Pam y byddai gwneud hyn yn achosi problem?
- Sut byddwch chi'n sicrhau na all neb gopïo'r hyn rydych chi'n ei greu?

Yna, gallant ychwanegu syniadau newydd at eu map meddwl.

## Sgrîn 14

Gofynnwch i'r dysgwyr fyfyrio ar eu meini prawf llwyddiant ar gyfer llyfryn cymunedol da. Yna, gallant ddiwygio'r meini prawf yng ngoleuni'r hyn y maent wedi'i ddysgu drwy eu newid neu ychwanegu dau neu dri maen prawf newydd. Gan feddwl am eu meini prawf llwyddiant, gofynnwch iddynt ychwanegu unrhyw syniadau newydd at eu map meddwl.

## Sgrîn 15

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio eu map meddwl i gynllunio eu llyfryn cymunedol.

Yna, dylent rannu eu cynllun gyda grŵp arall, gan ofyn i'r grŵp:

- Ddweud pa rannau o'r cynllun fydd yn gweithio, yn eu barn nhw.
- Awgrymu sut y gellid ei wella.

Yna, dylent wneud unrhyw welliannau y mae angen eu gwneud, er mwyn gwella eu cynllun.

## Sgrîn 16

Gofynnwch i'r dysgwyr greu eu llyfryn cymunedol digidol.

## Sgrîn 17

Anogwch y dysgwyr i rannu eu llyfryn cymunedol digidol a'u meini prawf llwyddiant ar gyfer llyfryn da gydag eraill yn y dosbarth, gan ofyn iddynt roi adborth ar:

- Pa mor dda mae'r llyfryn yn bodloni pob un o feini prawf llwyddiant y grŵp?
- Pa mor dda mae'r llyfryn yn cynrychioli eich cymuned? Pam?
- Pa mor dda mae'r poster yn defnyddio:
    - delweddau
    - lliw
    - testun?

Yn olaf, gofynnwch i'r dysgwyr wneud diwygiadau i'w llyfryn i'w wella.